



**Comisiynydd Heddlu a Throsedd**  
**Dyfed-Powys**  
**Police and Crime Commissioner**



# Cyllideb yr Heddlu ar gyfer 2022/2023

Fel Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd, rwy'n gosod y gyllideb ar gyfer plismona lleol. Mae hyn yn cynnwys gosod lefel y praesept - yr elfen o'ch treth gyngor sy'n mynd i'r heddlu.

Yr wyf yn ymwybodol iawn o'r pwysau ariannol ehangach y mae pawb ohonom yn wynebu, a'r angen i sicrhau gwasanaeth heddlu effeithiol ac effeithlon, gan sicrhau cynaliadwyedd yn y dyfodol. Bu'r rhain yn hollbwysig yn fy ystyriaethau.

Yn anffodus, oherwydd chwyddiant, pwysau annisgwyl a galw am wasanaethau, bydd buddsoddiad newydd yn gyfyngedig yn 2022/23. Gan hynny, yr wyf wedi cymryd y penderfyniad a gefnogwyd yn unfrydol gan y [Panel Heddlu a Throsedd](#) i godi'r praesept heddlu o 5.3%. Mae hyn yn golygu cynnydd misol o £1.22 a phraesept blynyddol o £290.16 ar gyfer eiddo Band D. Mae hyn yn codi cyfanswm praesept o £66.760 miliwn ac yn darparu cyfanswm grant craidd canolog a chyllid lleol o £127.445 miliwn.

Bydd y lefel hon o gyllid yn galluogi Heddlu Dyfed-Powys i barhau i ddiogel ein cymunedau lleol a chanolbwyntio ar gyflenwi fy [Nghynllun Heddlu a Throsedd](#) newydd.

*Dafydd Llywelyn*

**Dafydd Llywelyn**  
**Comisiynydd Heddlu a Throsedd**  
**Dyfed-Powys**

Mawrth 2022



Cyllideb referniw	diwygiedig 2021/22 £m	2022/23 £m
Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd	1.093	1.284
Gwasanaethau a Gomisiynir	1.002	1.003
Ystadau	4.119	4.305
<b>Costau Net SCHTh</b>	<b>6.214</b>	<b>6.592</b>
Cyflogau a Phensiynau Swyddogion a Staff yr Heddlu	108.170	115.336
Treuliau Rhedeg Eraill	15.931	17.285
Gwasanaethau Asiantaethau a Gwasanaethau ar Gontract	3.669	3.788
Costau Ariannu Cyfalaf	2.273	3.241
<b>Cyfanswm Gwariant Gros yr Heddlu</b>	<b>130.043</b>	<b>139.650</b>
Incwm	-5.993	-6.097
Grantiau Eraill	-10.358	-11.732
Cyfraniad net o Gronfeydd Wrth Gefn	-0.072	-0.968
<b>Gofyniad Cyllideb</b>	<b>119.834</b>	<b>127.445</b>
Grant yr Heddlu (Swyddfa Gartref)	-44.497	-52.017
Ardrethi Annomestig a Ailddosbarthwyd (Llywodraeth Cymru)	-9.212	-8.477
Grant Cynnal Referniw (Llywodraeth Cymru)	-3.818	-0.190
Praesept Treth Gyngor	-62.307	-66.760
<b>Cyfanswm yr Arian</b>	<b>-119.834</b>	<b>-127.445</b>
<b>Asesiad o Wariant Safonol</b>	<b>37.492</b>	<b>33.904</b>
<b>Cyllideb Gwariant Cyfalaf</b>	<b>11.752</b>	<b>27.556</b>
<b>Amcangyfrif o gronfeydd wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn ariannol</b>	<b>16.466</b>	<b>9.800</b>

Am ragor o wybodaeth ynglŷn â'r gyllideb a'r penderfyniad praesept, darllenwch ein Cynllun Ariannol Tymor Canolog fan hyn:

<https://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/cy/y-swyddfa/cyllid/y-praesept-a-r-cynllun-ariannol-tymor-canolog/>



Bydd y gyllideb ar gyfer 2022/23 yn ein caniatáu i...



Recriwtio  
57 swyddog  
heddlu  
ychwanegol



Cyflawni yn erbyn  
fy mlaenoriaethau  
allweddol, a nodir yng  
[Nghynllun Heddlu a  
Throsedd](#) 2021-25:



1. Cefnogi dioddefwyr;
2. Atal niwed; a
3. Sicrhau system gyfiawnder fwy effeithiol.



Parhau i  
fuddsoddi  
mewn seilwaith  
hanfodol

Beth fyddwch chi'n talu ar gyfer y flwyddyn 2022/2023

Eich band treth	2022/23	Cynnydd ers llynedd
A	£193.44	£9.73
B	£225.68	£11.36
C	£257.92	£12.98
<b>D</b>	<b>£290.16</b>	<b>£14.60</b>
E	£354.64	£17.84
F	£419.12	£21.09
G	£483.60	£24.33
H	£580.32	£29.20
I	£677.04	£34.07